# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Gwener, 11 Chwefror 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies a C.A. Davies

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
S John, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion a Derbyn Disgyblion
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.20 yb - 10.40 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD B.R.J.M. & H.B.R.J.M YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL,** yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant am ddim i B.R.J.M a H.B.R.J.M. i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr apêl a gyflwynwyd gan B.R.J.M and H.B.R.J.M. am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**